Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Coed Glas

**Rhodfa Tŷ Glas**
**Llanisien**
**CF14 5DW**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Coed Glas

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Coed Glas |
| Awdurdod lleol | Cyngor Caerdydd |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 529 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 422 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 54 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 28.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 11.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 23.7% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Medi 2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 14/10/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 30/01/2023 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Coed Glas yn ysgol gynradd eithriadol o ofalgar a chynhwysol lle caiff pob disgybl ei annog i lwyddo ym mhob agwedd ar ddysgu. Mae gan ddisgyblion sy'n mynychu'r Ddarpariaeth Adnoddau ar gyfer Nam ar y Clyw (HIRB), disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY), a'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol mewn dysgu, agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn mwynhau cymryd rhan ac yn elwa ar y profiadau dysgu gwerth chweil a ddarperir gan staff.

Mae disgyblion yn elwa ar sesiynau lles sy'n cael eu darparu ar ddechrau pob diwrnod. Mae'r sesiynau hyn yn eu cynorthwyo i ddatblygu eu medrau cymdeithasol ac ymgysylltu â dysgu. Mae'r cymorth anogaeth a ddarperir yn 'Nest' yn ddarpariaeth hynod effeithiol i ddiwallu anghenion lles disgyblion yn y ffordd orau. Yn gyffredinol, gyda chymorth staff medrus a hyfforddedig, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas wrth ddatblygu eu medrau yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Un o gryfderau'r ysgol yw sut mae'r staff yn gweithio gyda'i gilydd fel tîm i ddarparu amgylchedd dysgu deniadol a digynnwrf ar gyfer disgyblion. Un o nodweddion hynod gryf o'r ddarpariaeth yw'r profiadau dilys a phwrpasol a ddarperir ar gyfer plant oedran meithrin. Mae'r ddealltwriaeth estynedig o ddatblygiad plant yn annog staff i addasu'r ddarpariaeth yn gyson i ddiwallu cyfnod datblygu'r plant yn y ffordd orau. Mae hyn yn cynorthwyo plant yn effeithiol i ddatblygu eu hiaith a'u medrau dysgu'n annibynnol o fewn cyfnod amser byr.

At ei gilydd, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau llythrennedd, rhifedd a digidol trwy arferion sefydledig a sesiynau strwythuredig i gynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd yn y medrau hyn. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn cyflwyno cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ddefnyddio a chymhwyso'r medrau hyn mewn cyd-destunau difyr, sydd wedi'u hysgogi gan y plant, ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud y cynnydd y gallant ei wneud, er enghraifft wrth siarad Cymraeg, datblygu eu medrau ysgrifennu a chymhwyso eu medrau digidol.

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir a dealltwriaeth gref o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Mae arweinyddiaeth effeithiol a thosturiol y pennaeth dros dro wedi'i seilio ar ddyheadau uchel a chymorth ar gyfer disgyblion a'u teuluoedd. O ganlyniad, mae'r ysgol yn rhan annatod a phwysig o'r gymuned amrywiol.

## Argymhellion

A1 Gwella effeithiolrwydd yr addysgu i herio a diwallu anghenion yr holl ddisgyblion yn gyson

A2 Darparu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ddefnyddio a chymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar draws y cwricwlwm

A3 Gwella medrau llafaredd Cymraeg disgyblion

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos i’w lledaenu ar wefan Estyn ar ei gwaith yn gysylltiedig â’r canlynol:

1. Darparu profiadau dilys a difyr yn y ddarpariaeth feithrin i ysbrydoli cariad plant at ddysgu a datblygu eu medrau annibynnol
2. Cefnogi lles disgyblion trwy hunangyfeirio i ddarpariaeth anogaeth hynod effeithiol ‘Nest’ yr ysgol

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae tua hanner y disgyblion yn dechrau Ysgol Gynradd Coed Glas â medrau llafaredd, iaith a chymdeithasol islaw'r hyn sy'n ddisgwyliedig ar gyfer disgyblion o'u cyfnod datblygu. Fodd bynnag, mewn cyfnod byr iawn, mae llawer o ddisgyblion iau, trwy drochi mewn amgylchedd dilys, sy'n gyfoethog o ran iaith, yn gwneud cynnydd cyflym. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, mae llawer ohonynt yn parhau i wneud cynnydd addas yn eu dysgu. Mae hyn yn cynnwys y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai sydd â SIY. Mae mwyafrif y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu, gan gynnwys y disgyblion hynny sy'n defnyddio'r HIRB. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion y nodwyd eu bod yn fwy abl bob amser yn gwneud y cynnydd y gallant ei wneud.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn yr ysgol yn gwneud cynnydd da â'u medrau llafaredd. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol yn ystod eu profiadau chwarae a dysgu, gan ymateb yn fodlon i gwestiynau a chyfarwyddiadau. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn defnyddio ystod o fedrau iaith a geirfa briodol, er enghraifft trwy ddefnyddio iaith berswadiol i baratoi ar gyfer ysgrifennu hysbysebion ar gyfer eu dyfeisiadau. Mae bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn dysgu Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ac yn ei defnyddio'n effeithiol fel cyfrwng cyfathrebu.

Yn gyffredinol, nid yw medrau Cymraeg disgyblion wedi'u datblygu'n ddigonol. Mae lleiafrif o ddisgyblion iau yn ymateb yn briodol i eirfa ac ymadroddion Cymraeg syml. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn canu caneuon Cymraeg yn frwdfrydig ac yn datblygu cyflwyniadau llafar amdanyn nhw eu hunain. Fodd bynnag, wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, nid yw eu medrau siarad yn Gymraeg yn gwella'n ddigon da ac nid ydynt yn adeiladu ar eu dysgu blaenorol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn dangos brwdfrydedd am lyfrau a gweithgareddau darllen. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau ffoneg yn effeithiol i ddadgodio geiriau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn darllen yn rhugl ac yn trafod y rhan fwyaf o nodweddion llyfr. Mae'r disgyblion hyn yn defnyddio medrau ymchwil yn briodol ac yn datblygu medrau darllen a deall. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn trafod llyfr darllen eu dosbarth yn aeddfed, gan ddangos lefelau da o ddealltwriaeth ac empathi am y cymeriadau yn y stori.

Mae llawer o ddisgyblion iau yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar yn dda. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn ardaloedd ysgrifennu'r dosbarth, yn creu marciau ac yn datblygu eu medrau echddygol manwl yn effeithiol. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n briodol gan ddefnyddio brawddegau syml, ac mae'r mwyafrif ohonynt yn defnyddio atalnodi sylfaenol ac yn sillafu geiriau syml yn gywir. Maent yn defnyddio eu medrau ffoneg yn effeithiol i gynorthwyo eu sillafu. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn ysgrifennu'n hyderus mewn ystod o ffurfiau, gan gynnwys cofiannau ac adroddiadau perswadiol. Erbyn Blwyddyn 6, mae disgyblion mwy abl yn ailddrafftio eu hysgrifennu'n briodol gan ddefnyddio ystod o eirfa ddiddorol, gan gynnwys cwestiynau rhethregol ac ailadrodd i bwysleisio safbwyntiau. Fodd bynnag,

nid yw disgyblion yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu i lefel briodol ar draws y cwricwlwm. Weithiau, dibynnir yn ormodol ar ddefnyddio taflenni gwaith, sy'n aml yn rhwystro gallu disgyblion i ysgrifennu'n estynedig. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion bob amser yn ymfalchïo mewn cyflwyno'u gwaith, ac nid yw eu llawysgrifen bob amser yn rhugl a darllenadwy.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn gwneud cynnydd da yn eu medrau rhif. Maent yn defnyddio eu medrau rhesymu yn effeithiol i ddatrys problemau ymarferol. Er enghraifft, mae disgyblion yn mesur pasta a reis ac yn cymharu eu pwysau. Ym Mlwyddyn 3, mae disgyblion yn defnyddio eu gwybodaeth am rif a mesur i gyfrifo perimedr yr ardal chwarae yn yr awyr agored. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd da yn defnyddio eu medrau mathemategol ac yn eu cymhwyso i ystod gyfyngedig o feysydd ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio eu medrau mathemategol yn briodol i ddatrys ystod addas o broblemau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 yn defnyddio eu medrau i gyfrifo modd, canolrif ac amrediad set o ddata wedi'i seilio ar eu gwaith ar hedfan. Ar y cyfan, ni chaiff disgyblion ddigon o gyfle i ddefnyddio a chymhwyso'r medrau y maent wedi'u dysgu mewn mathemateg mewn amrywiaeth ehangach o gyd-destunau.

Yn gyffredinol, nid yw medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi'u datblygu'n ddigonol. Mewn ychydig iawn o enghreifftiau, mae disgyblion yn defnyddio technolegau digidol yn greadigol i gefnogi eu gwaith llythrennedd. Er enghraifft, mae disgyblion yn ysgrifennu cameos am deuluoedd sydd wedi symud i Gaerdydd ac yn defnyddio codau QR i arddangos recordiadau sain ohonynt yn cael eu cyfweld. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddefnyddio a chymhwyso medrau digidol disgyblion mewn ystod ehangach o lawer o gyd-destunau yn gyfyngedig.

Mae bron pob un o'r disgyblion iau yn datblygu eu medrau creadigol yn dda ac yn eu cymhwyso i ystod o brofiadau dysgu'n annibynnol. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn canu'r piano yn eu hystafell ddosbarth, ac yn dylunio a chreu nythod o adnoddau naturiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn effeithiol wrth iddynt symud trwy'r ysgol, er enghraifft wrth gymryd rhan mewn gweithdai perfformio creadigol gydag opera genedlaethol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn gyson ac yn defnyddio iardiau a gofod awyr agored yr ysgol yn effeithiol ar gyfer datblygiad corfforol, er enghraifft trwy ddefnyddio beiciau a llwybrau cadw'n heini'r ysgol.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae lles emosiynol disgyblion yn gryf o ganlyniad i'r cymorth hynod effeithiol a ddarperir gan staff. Mae llawer o ddisgyblion yn dylanwadu ar ystod o agweddau ar fywyd yr ysgol ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o gyfrifoldebau'n frwdfrydig. Mae'r cyfraniad gan y disgyblion at waith yr ysgol yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion yn trefnu gweithgareddau ar gyfer eu cyfoedion fel rhan o wythnos iechyd meddwl ac yn hyrwyddo iaith arwyddion i gynorthwyo eu cyfoedion sydd ag anghenion clywed. Mae'r gweithgareddau gwerth chweil hyn yn sicrhau bod safbwyntiau a syniadau disgyblion yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywyd yn yr ysgol ac yn gwneud cyfraniad nodedig at fedrau cymdeithasol a medrau bywyd disgyblion.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth glir o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, er enghraifft pan fydd disgyblion iau yn torri ffrwythau i fyny a'u bwyta gyda'u cyfoedion yn y dosbarth. Maent yn dysgu am fanteision bwyta'n iach fel rhan o'r cwricwlwm ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i wneud dewisiadau gwybodus am ba fwydydd fydd o fudd i'w hiechyd hirdymor. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall buddion ymarfer corff egnïol ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig i ddatblygu eu medrau corfforol, er enghraifft yn y clybiau pêl-droed, dawnsio, garddio ac aml-chwaraeon. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos dealltwriaeth dda o'u lles emosiynol eu hunain ac yn sefydlu perthnasoedd cefnogol â'u ffrindiau.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn awyddus i ddysgu. Dywed disgyblion eu bod yn ddiogel yn yr ysgol ac yn teimlo'n rhydd oddi wrth broblemau bwlio. Mae gan bron bob un ohonynt berthnasoedd cynnes a pharchus gyda staff yn yr ysgol, sy'n creu amgylchedd dysgu sefydlog a hapus. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gydweithredol ac yn gymwynasgar, ac maent yn meddwl am deimladau pobl eraill yn sensitif. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos diddordeb yn eu dysgu ac yn frwdfrydig i ddyfalbarhau a chwblhau eu gwaith. Fodd bynnag, ar adegau, mae'r addysgu wedi'i or-gyfarwyddo, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn colli diddordeb ac yn oddefgar yn eu dysgu.

Yn y dosbarthiadau iau, mae disgyblion yn barod i ymgymryd â thasgau ac yn siarad yn hyderus am eu dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion o wledydd eraill sy'n newydd i'r ysgol yn esbonio'r gwahaniaeth yn eu profiad dysgu o gymharu â Chymru. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu perthnasoedd cryf iawn â'u cyfoedion ac yn helpu cefnogi ei gilydd yn eu dysgu. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion iau yn helpu ei gilydd yn fuddiol, er enghraifft wrth ddefnyddio offer i greu offer bwydo adar o bren fel rhan o'r gweithgareddau gwylio adar.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn eithriadol o dda. Mae llawer ohonynt yn cyfeirio'n wybodus at bosteri 'Ffordd Coed Glas' yn gadarnhaol, sy'n ymdrechu i gael amgylchedd dysgu parchus sy'n ategu'r perthnasoedd cytûn yng nghymuned yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrtais ac yn foesgar tuag at ei gilydd ac at oedolion, ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol tuag at eu dysgu. Maent yn mwynhau dysgu ac yn gweithio'n effeithiol mewn parau a grwpiau bach. Er enghraifft, maent yn cydweithio ar weithgareddau corfforol i gadw gofodwr yn heini yn y gofod. Yn gyffredinol, maent yn dangos dyfalbarhad a gwydnwch wrth wynebu anawsterau â'u gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd tegwch a chydraddoldeb. Er enghraifft, mae grŵp o ddisgyblion hŷn yn trafod rôl bwysig y Cenhedloedd Unedig. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mynd ati i wybod eu hawliau ac yn esbonio'n glir eu bod yn deall bod ganddynt yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag cael eu brifo a'u cam-drin yn gorfforol ac yn feddyliol. O ganlyniad, maent yn siarad ac yn gwrando'n hyderus ar staff ac yn hapus i droi at unrhyw aelod o staff os bydd ganddynt bryderon, er enghraifft fel rhan o'r cymorth anogaeth a lles hynod effeithiol a gynigir yn narpariaeth 'Nest'.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Ar draws yr ysgol, mae staff yn meithrin perthynas weithio ofalgar a phwrpasol â'r holl ddisgyblion i gefnogi eu dysgu. Maent yn deall ac yn gwerthfawrogi anghenion

disgyblion, gan gynnwys disgyblion sy'n mynychu'r HIRB, ac yn teilwra darpariaeth i annog llawer o ddisgyblion i wneud cynnydd addas mewn amgylchedd dysgu cynhwysol a chynhyrchiol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion â SIY a'r rhai y nodwyd bod angen cymorth arnynt â'u lles yn fuddiol i'w dysgu. Ceir cyfleoedd gwerthfawr i fwyafrif o ddisgyblion wneud cynnydd da mewn sesiynau unigol a grwpiau bach, sydd, yn eu tro, yn eu cynorthwyo i atgyfnerthu eu medrau gyda'u cyfoedion yn y dosbarth.

Mae staff yn gweithio'n ddiwyd fel tîm i ddarparu amgylchedd dysgu deniadol a digynnwrf, sy'n helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ymgymryd â gweithgareddau dysgu ym mhob ardal o'r ysgol, fel yr Ardd Gudd. Mae'r rhan fwyaf o athrawon, gyda chymorth y staff cymorth hyfforddedig, yn dilyn cynlluniau gwaith ac arferion sefydledig i ddarparu gweithgareddau dysgu priodol i ddisgyblion i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob tro'n darparu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ddefnyddio a chymhwyso eu medrau mewn gweithgareddau cyfoethog, wedi'u hysgogi gan y plant, yn holl feysydd y cwricwlwm.

Mae arweinwyr a staff yn hyrwyddo'r weledigaeth a'r gwerthoedd ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ac yn ymdrechu i alinio arferion effeithiol i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau. Mae athrawon yn cydweithio mewn grwpiau blwyddyn a sectorau i gynllunio a chyflwyno gweithgareddau sydd, ar y cyfan, yn diwallu anghenion llawer o ddisgyblion yn y ffordd orau. Yn gyffredinol, mae gwahanol agweddau ar ddulliau addysgu yn esblygu o ymchwil unigol wedi'i seilio ar ymholi, sy'n darparu sylfaen fuddiol ar gyfer addysgu a dysgu effeithiol. Er enghraifft, mae athrawon yn addasu eu dulliau addysgu trwy holi medrus i ddyfnhau dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau mathemategol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae gan leiafrif o athrawon ddisgwyliadau sy'n rhy isel. Yn yr amgylchiadau hyn, nid ydynt yn addasu'r ddarpariaeth a'u dulliau addysgu i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion yn y ffordd orau, er enghraifft eu gallu i siarad Cymraeg, datblygu eu medrau ysgrifennu neu gymhwyso eu medrau digidol.

Yn yr arfer orau, er enghraifft yn y ddarpariaeth feithrin, mae gan athrawon ddealltwriaeth ddofn a soffistigedig o ddatblygiad plant. Er enghraifft, mae staff hynod fedrus yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu'n annibynnol trwy ddarparu adnoddau bywyd go iawn tra byddant yn paratoi a gweini cawl llysiau. Mae'r ymagwedd hon at anogaeth a datblygu chwilfrydedd disgyblion yn cefnogi'r addysgu a'r dysgu yn effeithiol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae athrawon ar draws yr ysgol yn tueddu i or-gyfarwyddo'r dysgu, sy'n rhwystro lleiafrif o ddisgyblion rhag datblygu eu medrau dysgu'n annibynnol.

Mae llawer o staff yn cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd trwy gyfeirio at ddysgu blaenorol a galw gwahanol syniadau i gof, er enghraifft wrth goladu gwybodaeth fel sylfaen i drafod effaith negyddol newid hinsawdd. Maent yn defnyddio dulliau addysgu effeithiol fel procio cynnil, ac yn annog disgyblion i ymhelaethu ar eu hymatebion a dyfnhau eu dealltwriaeth mewn gwahanol gyd-destunau dysgu. Mae athrawon yn darparu nodau clir ar gyfer gweithgareddau dysgu ac yn cyfeirio atynt yn gyson yn ystod gwersi, fel defnyddio cwestiynau rhethregol yn effeithiol wrth ysgrifennu testun perswadiol. Yn gyffredinol, mae cyflymdra gwersi yn briodol i gyfnod datblygu disgyblion, ac mae staff yn eu hannog a'u helpu i ddyfalbarhau â'u dysgu. Mae llawer o athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig priodol i arwain disgyblion i ddeall beth a sut gallant wneud mwy o gynnydd yn eu dysgu.

Mae staff yn ymestyn dealltwriaeth disgyblion o berthynas bersonol a chymdeithasol yn fuddiol gan ddefnyddio'r cynllun gwaith newydd a ddatblygwyd. Yn dilyn dysgu proffesiynol buddiol a gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol ag ysgolion lleol, mae athrawon yn darparu gweithgareddau dysgu i gefnogi lles disgyblion yng nghymuned ofalgar yr ysgol.

Ar y cyfan, mae staff yn rhannu gwybodaeth berthnasol â rhieni am brofiadau dysgu eu plant yn yr ysgol, ac yn darparu gwybodaeth fuddiol am y lles a'r cynnydd y maent yn eu gwneud wrth ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r gofal a'r cymorth a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer disgyblion a'u teuluoedd yn nodwedd ragorol. Mae arweinwyr a staff yn clustnodi llawer o'u hamser i ddod i adnabod y disgyblion a diwallu eu hanghenion lles yn dda. Er enghraifft, yn y sesiynau lles ar ddechrau pob diwrnod, mae disgyblion yn dewis eu gweithgareddau eu hunain i'w helpu i ymgynefino a pharatoi ar gyfer dysgu. Mae'r sesiynau hyn yn galluogi staff i arsylwi disgyblion a helpu'r rhai y nodwyd bod angen cymorth emosiynol, meddyliol a chorfforol arnynt. Yn ychwanegol, mae darpariaeth anogaeth 'Nest' yn cefnogi anghenion cymdeithasol ac emosiynol y disgyblion yn hynod effeithiol. Caiff disgyblion eu cyfeirio at y ddarpariaeth hon ar ôl cael eu nodi gan staff, neu gall disgyblion gyfeirio eu hunain os ydynt yn teimlo bod angen mwy o ofal a chymorth arnynt.

Mae'r holl staff yn darparu cymorth cryf ar gyfer disgyblion ag ADY. Ceir systemau clir ar gyfer nodi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol mewn dysgu, ac fe gaiff darpariaeth ei chynllunio'n effeithiol i'w cynorthwyo i wneud cynnydd da yn eu medrau. Mae staff yn annog rhieni i chwarae rôl lawn yn y cymorth o amgylch eu plentyn, ac mae'r ysgol yn gweithio'n dda â phartneriaid cefnogol eraill, fel gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth adnoddau arbenigol ar gyfer disgyblion ag anghenion nam ar y clyw sy'n cael eu cynnwys yn llawn ym mywyd yr ysgol. Mae'r disgyblion hyn yn gweithio gyda'u cyfoedion bron ym mhob dosbarth ar draws yr ysgol, tra bod disgyblion ym mhob dosbarth yn dysgu Iaith Arwyddion Prydain (BSL) i gyfathrebu â'u ffrindiau.

Mae staff yn darparu ystod eang o grwpiau llais y disgybl, y mae pob un ohonynt yn agored i unrhyw ddisgybl gael ei ethol iddynt, i chwarae rôl weithredol mewn gwella'u hysgol. Er enghraifft, yn ystod yr adolygiad diweddar o bolisi ymddygiad yr ysgol, mynychodd aelodau o Senedd yr ysgol un o gyfarfodydd y corff llywodraethol i drafod pwyntiau pwysig wrth greu polisi newydd ar gyfeillgarwch. Fodd bynnag, nid yw disgyblion o fewn rhai grwpiau yn hyderus i nodi materion a gweithredu ar gyfer gwella.

Mae staff yn darparu llawer o glybiau ar ôl yr ysgol, yn canolbwyntio ar amrywiaeth o ddiddordebau sy'n cynnwys celf, technoleg ddigidol ac ieithoedd. Mae'r ddarpariaeth hon yn helpu disgyblion i ehangu eu diddordebau a gwella medrau. Caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i gymryd rhan mewn cystadlaethau a pherfformiadau, er enghraifft gyda theatr leol ac opera genedlaethol, yn ogystal â thîm pêl-droed proffesiynol cenedlaethol i fenywod.

Mae staff yn awyddus i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu i fod yn unigolion cyflawn. Er enghraifft, mae disgyblion yn ymweld â siopau yn eu cymuned leol i ymestyn y defnydd o'r Gymraeg yn eu cymuned. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn dysgu am Gaerdydd fel prifddinas, ei threftadaeth a'i diwylliant, ac yn archwilio pam mae pobl wedi dewis ei gwneud yn gartref iddynt. Yn ogystal ag ymweld â thirnodau lleol, mae disgyblion yn mynychu canolfannau preswyl awyr agored i ddatblygu gwahanol fedrau. Mae ymwelwyr yn mynychu'r ysgol i annog disgyblion i fod yn ddyheadol a'u hannog i oresgyn unrhyw heriau. Er enghraifft, ysbrydolodd artist perfformiadol lleol y disgyblion trwy fynychu'r ysgol a rhannu ei brofiad cadarnhaol yn Ysgol Gynradd Coed Glas.

Mae'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd yn cynorthwyo llawer o rieni yn hynod fuddiol i helpu disgyblion a'u rhieni, er enghraifft i sicrhau presenoldeb rheolaidd. Mae rhieni'n eithriadol o werthfawrogol o'r cymorth a'r arweiniad a ddarperir, er enghraifft derbyn eu plant pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol, a'u cyfnod pontio i ysgolion uwchradd.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o ddiogelu ac mae staff yn darparu amgylchedd gofalgar a diogel i ddisgyblion. Mae trefniadau ar gyfer monitro prydlondeb a phresenoldeb rheolaidd disgyblion yn gadarn.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

O fewn cyfnod amser byr, mae'r pennaeth dros dro wedi sefydlu gweledigaeth a blaenoriaethau clir ar gyfer gwella yn yr ysgol. Mae'r weledigaeth yn amlinellu dyheadau uchel ar gyfer disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned leol ac yn rhoi cynhwysiant a lles wrth wraidd gwaith yr ysgol. Mae'r pennaeth dros dro yn darparu arweinyddiaeth effeithiol, gefnogol a thosturiol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar fywydau disgyblion, staff a'u teuluoedd.

Ar y cyd â chymorth y dirprwy bennaeth dros dro ac aelodau o'r tîm arweinyddiaeth newydd, mae arweinwyr yn darparu diwylliant o waith tîm cryf, gwelliant parhaus a chynhwysiant ar draws yr ysgol. Mae arweinwyr a staff wedi ymrwymo i feithrin a chynnal perthnasoedd gweithio cryf gyda disgyblion a rhieni o'r cychwyn. O ganlyniad, mae disgyblion yn falch o'u hysgol ac mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd addas yn eu dysgu, yn enwedig y rhai y nodwyd bod ganddynt ADY neu SIY.

Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel ac yn annog staff i fanteisio ar gyfleoedd hunanwelliant a datblygiad proffesiynol parhaus i wella'u gwybodaeth a'u medrau. Maent yn cysylltu anghenion proffesiynol staff â blaenoriaethau'r ysgol yn dda, gan gynnwys yr angen i gynyddu'r capasiti arweinyddiaeth dros dro ac arwain ar agweddau ar gynllun gwella'r ysgol. Mae'r gweithdrefnau rheoli perfformiad newydd yn cefnogi'r gwaith hwn yn dda. O ganlyniad, mae gan staff ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau, ac maent yn cyfrannu'n effeithiol at y gwelliant parhaus ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae athrawon yn meithrin chwilfrydedd disgyblion a'u hymgysylltiad â dysgu trwy addasu'r amgylchedd dysgu.

Yn gyffredinol, mae gan arweinwyr, staff a llywodraethwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Maent yn defnyddio ystod briodol o offer monitro a gwerthuso i helpu nodi beth maent yn ei wneud yn dda a beth mae angen

ei wella. Er bod arweinwyr yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol fel craffu ar lyfrau ac arsylwadau ystafell ddosbarth yn briodol, nid ydynt bob amser yn nodi effaith y ddarpariaeth ar ddysgu disgyblion yn ddigon da.

Mae arweinwyr yn ymgysylltu'n dda â rhanddeiliaid i fesur effeithiolrwydd elfennau allweddol yng ngwaith yr ysgol, yn aml gan gydweithio â nhw i gynllunio a gweithredu newidiadau i'r ddarpariaeth. Enghraifft dda o hyn yw'r Polisi Perthnasoedd, sydd wedi cael ei lunio ar y cyd gan ddisgyblion, staff, llywodraethwyr, a rhieni i adlewyrchu eu safbwyntiau a gofynion cymuned yr ysgol gyfan yn well. Yn gyffredinol, mae blaenoriaethau gwella'r ysgol yn cysylltu'n briodol â'r negeseuon allweddol o'r broses hunanwerthuso ac yn cynnwys y cyd-destun lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Er enghraifft, maent yn cydnabod bod angen gwella medrau Cymraeg disgyblion a'r ddarpariaeth ar gyfer medrau ysgrifennu disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn wybodus ac yn effeithiol yn ei rôl yn cefnogi'r ysgol. Mae aelodau'n defnyddio eu hystod eang o fedrau ac arbenigedd i ddarparu cymorth, arweiniad a her werthfawr i arweinwyr a staff yr ysgol. Maent yn gwerthfawrogi gwaith pob un o'r staff ac yn falch iawn o natur gynhwysol yr ysgol a'r rôl mae'n ei chwarae yn cefnogi anghenion y gymuned leol. Mae llywodraethwyr yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach ac yn cynorthwyo arweinwyr i reoli cyllid yn effeithiol yn unol â blaenoriaethau'r ysgol.

Mae arweinwyr yn gwbl ymwybodol o effaith tlodi ar gyrhaeddiad ac mae ganddynt brosesau cadarn ac effeithiol iawn ar waith i greu darpariaeth gynhwysol ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae gwaith yr ysgol mewn partneriaeth â rhieni ac asiantaethau allanol yn effeithiol, sy'n cefnogi lles disgyblion a'u teuluoedd yn eithriadol o dda. Mae hyn yn sicrhau bod rhieni'n ymddiried bod yr ysgol yn gwneud y peth cywir i'w plant ac y bydd staff bob amser yn gweithredu er eu lles pennaf, ac yn gweithio gyda nhw'n sensitif. Yn ychwanegol, mae arweinwyr yn cydnabod pwysigrwydd cynnal lefelau da o les staff, er enghraifft trwy ddarparu cymorth arbenigol i ddiwallu eu hanghenion.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth gref â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd i sicrhau bod myfyrwyr addysg gychwynnol athrawon yn derbyn cymorth strwythuredig gan fentoriaid yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn ystyried effeithiolrwydd ei hymagwedd ac yn addasu i wneud gwelliannau, ble bynnag y bo'n briodol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  03/04/2023